

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 15 Medi 2020

Presennol: Cyng. Sharon Parry (Cadeirydd)
Cyng. Celfyn Furlong
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Siân Enfys Jones
Cyng. Einir Thomas
Cyng. Dyfed Williams

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gordon Owen, William Victor Owen a Beryl Salisbury.

2. **Datganiad o ddiddordeb: - dim**

Cofnodion cyfarfod 21 Gorffennaf 2020

Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Siân Enfys Jones.)

4. **Materion yn codi o'r cofnodion:**

1. Llwybrau: Roedd Cyng. Parry am ddarganfod os oedd y Cyngor Sir wedi gwneud y gwaith ar lwybr 15.

2. Cae Chwarae: Yn dilyn cyfarfod ar y cae chwarae ar 23 Gorffennaf fe benderfynwyd:

i gofyn i R.G. Hire Ltd. gyflwyno dyfynbris ar gyfer tynnu'r teils rwber o dan y siglenni a rhoi wyneb glaswellt yn ei le, ond ni chafwyd hwn eto.

ii Gosod postyn newydd a set o arwyddion ychwanegol wrth y fynedfa gyntaf i'r cae ac ail osod y postyn oedd wedi syrthio wrth y fynedfa isaf. Erbyn gweld roedd angen dau bostyn newydd a threfnwyd i rain gael ei gosod. Roedd yr arwyddion newydd yn barod i'w casglu.

iii Gofyn i'r datblygwr tai am fyrddau picnic newydd, roedd C. Redmond wedi cael gwared a'r un yn barod ac roedd y llall mewn cyflwr gwael hefyd.

Cafwyd rhybudd o gynnydd o £5.00 yng nghost pob toriad gan gwmni G.M.S. Byddai'r clerch yn paratoi dogfennau tendro i'w cyhoeddi fis nesaf.

3. Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion: dim.

5. **Penderfyniadau Cynllunio:**

HHP/2020147 3 Zealand Park, Caergeiliog

Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu gyda codi modurdy ar wahan - Caniatâd.

6. **Ceisiadau Cynllunio**

Llofnod.....Cadeirydd.....

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

FPL/2020/159 Coedlys, Caergeiliog.

Cais llawn ar gyfer codi 2 annedd ynghyd a creu mynedfa i gerbydau ar y tir – dim gwrthwynebiad.

7. Materion Ariannol / Financial Matters

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol am y cyfnod 1.7.2020 hyd at 31.8.2020 ynghyd â Chysyniadau a Datganiadau Banc.

Cyfrif Cyfredol £19,134.11, Cyfrif Cadw £3,938.47

8. Taliadau i'w gwneud / Payments to be made

Cyflog (Gorffennaf / Awst)	£474.18	GMS Garden Services	£576.00
Xpose Media	£183.00		

Cytunwyd i dalu y rhain

9. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:

1. Datganiad - Arweinydd y Cyngor yn gwneud apêl o'r newydd am Coronafeirws
2. Cymdeithas Elusennol Ynys Môn
3. Sesiynau hyfforddiant o bell
4. Arolwg ffliw
5. Canllawiau Newydd - agor Canolfannau Cymunedol.
6. Cronfa Iaith - Busnesau Ynys Môn
7. Diweddarau'r wefan - byddai'r clercc yn cynnal archwiliad i sefydlu beth oedd ei angen er mwyn gwneud y cydymffurfio safle.
8. Graddfeydd cyflog newydd – derbyniwyd rhain.
9. Arweiniadau Arfer Gorau (Un Llais Cymru) – yn ymwneud â Ymgysylltu â'r Gymuned.

10. Adroddiadau Cyngorwyr

1. Adroddwyd bod y Cyngor Sir wedi gwneud gwaith cynnal a chadw ar Ffordd Minffordd
2. Dywedwyd bod Cyng. Victor Owen wedi bod yn brysur yn glanhau'r llochesi fysiau eto, a gwerthfawrogwyd hyn yn fawr.
3. Bu Cyng. Gwilym Jones mewn cyfarfod â swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn yn dilyn adroddiadau bod nifer fawr o garafanau a gwerysll wŷr anghyfreithlon ar Draeth Cymyran. Roedd Bwrdd Gofalwyr Tywyn Trewan am osod arwyddion gwahardd yno.

11. Cyfarfod Nesaf – 20 Hydref 2020.

Llofnod.....Cadeirydd.....